# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(81)v4

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog**

**NNDM5045 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitem 3, 4 and 5 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012.

**3. Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (15 munud)**

**NDM5038 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2012.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
Memorandwm Esboniadol – Saesneg yn unig

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Saesneg yn unig

**4. Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 (15 munud)**

**NDM4988 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Dileu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus 2012 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 – Saesneg yn unig
Dogfen Esboniadol – Saesneg yn unig
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5. Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM5037 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2012.

**Dogfennau Atgol**
Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol – Saesneg yn unig

**6. Dadl ar adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Ragolygon ar Gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru (60 munud)**

**NDM5041 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2012.

Er gwybodaeth, gosodwyd ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

**7. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y Broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop (60 munud)**

**NDM5042 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

Yn nodi: Ymateb y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ i'r adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar Gaffael Cyhoeddus

**8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM5043**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyder yn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**9. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5044 Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Dyslecsia ac Ysgolion: Cydweithio i Wneud Gwahaniaeth.

Mae angen cefnogaeth ar holl ddisgyblion Cymru i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, ac mae'n hanfodol bod pobl ifanc sydd â dyslecsia yn gallu cael yr asesiadau, yr ymyriadau a'r cymorth ychwanegol priodol y bydd eu hangen arnynt yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio eu sgiliau, eu dulliau a'u cymwyseddau gyda phobl ifanc sydd â dyslecsia yn hollbwysig a gall wneud byd o wahaniaeth i gyfleoedd bywyd plentyn.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 25 Medi 2012